OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2011 Rhif 2483 (Cy. 268)

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

## Gorchymyn Cefnffordd yr A4232 (Cyfnewidfa Croes Cwrlwys i Drosbont Drope Road, Caerdydd) (Terfyn Cyflymder 40 MYA Dros Dro) 2011

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *18 Hydref 2011* |
| *Yn dod i rym* | *31 Hydref 2011* |

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darnau perthnasol o Gefnffordd Llundain – Abergwaun (yr A4232) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "y gefnffordd"), wedi eu bodloni y dylid cyfyngu ar draffig ar ddarnau penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud arnynt.

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(1) a phob pŵer galluogi arall(2), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

**1.** Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 31 Hydref 2011. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A4232 (Cyfnewidfa Croes Cwrlwys i Drosbont Drope Road, Caerdydd) (Terfyn Cyflymder 40 MYA Dros Dro) 2011.

**2.** —(1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cyfnod y gwaith" ("*works period")* yw'r cyfnod hwnnw sy'n cychwyn am 20:00 o'r gloch ar 31 Hydref 2011 ac sy'n dod i ben pan fydd yr arwyddion traffig dros dro wedi cael eu tynnu oddi yno'n barhaol;

ystyr "y darnau o'r gefnffordd" *("the lengths of the trunk road"*) yw'r darnau o'r gefnffordd yn Ninas a Sir Caerdydd a bennir yn yr Atodlenni i'r Gorchymyn hwn.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.